Guide Dogs Cymru

Dysgwch gyda Guide Dogs



# Beth mae ci tywys yn ei wneud?



## Nod

Edrych ar sut mae rhywun sydd wedi colli ei olwg a'i gi tywys yn gweithio gyda'i gilydd i fynd o le i le. Deall rhai o'r camau syml y gall pawb eu cymryd i helpu i wneud llwybrau'n fwy hwylus.

### Amlinelliad

- I ddechrau – darllen i'r grŵp
- Fideo cŵn tywys wrth eu gwaith
- Gweithgaredd 1 – arwain mewn parau
- Gweithgaredd 2 – cynllun siwrnai
- I orffen – atgoffa a thrafodaeth

# I ddechrau

Darllenwch i'r grŵp

Chwaraewch fideo Chris a Chester



## Darllenwch y canlynol i'r dosbarth neu'r grŵp

"

Caewch eich llygaid. Dychmygwch ei bod hi'n amser chwarae ac rydych chi'n mynd allan i gwrdd â'ch ffrindiau. Meddyliwch am yr heriau y gallech eu hwynebu ar y ffordd – ble mae'r drws, ai drws gwthio ynteu ddrws tynnu ydy o, fyddwch chi'n baglu dros rywbeth neu'n taro i mewn i rywun, oes yna risiau, faint, pryd maen nhw'n cychwyn, ai i'r chwith ynteu i'r dde ydych chi'n troi, ble mae eich ffrindiau sydd y tu llan yn chwarae...

**Sut byddai'r siwrnai honno'n gwneud i chi deimlo?**




Nawr caewch eich llygaid eto a dychmygwch wneud y siwrnai i gyd eto, ond y tro yma, gyda'ch ffrind gorau wrth eich ochr yn eich tywys chi. Chi fyddai'n dewis ble i fynd, ond eich ffrind gorau fyddai'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n cyrraedd yno'n saff. Bydd yn rhoi gwybod i chi os oes grisiau neu ddrws o'ch blaen ac yn eich helpu i fynd o gwmpas unrhyw rwystrau.

**Fyddai hyn yn gwneud i chi deimlo'n saffach?**



Ond all eich ffrind gorau ddim gwneud hyn i chi o hyd. Mae gan eich ffrind ei fywyd a'i deulu ei hun, a phethau i'w gwneud. Mae'r elusen Guide Dogs yn cynnig ffrind gorau i bobl, sef cŵn anhygoel sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol – cŵn sy'n rhoi hyder i bobl sydd wedi colli eu golwg i fynd o le i le yn ddiogel. Maen nhw'n galw person a chi tywys sy'n gweithio gyda'i gilydd yn bartneriaeth, oherwydd mae'n rhaid iddyn nhw fod yn dîm da. Bydd y ci tywys yn gwisgo harnais gyda handlen fel bod y perchennog yn gallu teimlo 'tensiwn tywys'. Er enghraifft, os bydd y ci yn mynd i'r chwith neu'r dde, yn stopio, neu'n mynd yn syth ymlaen, bydd y person yn gallu teimlo hyn a'i ddilyn. Bydd hyn yn helpu i gadw'r person yn ddiogel.

"



## [Chwaraewch y fideo](#) i ddangos siwrnai Chris a'i gi tywys, Chester.

Mae'r fideo'n dangos yr heriau posibl wrth geisio mynd o un lle i'r llall pan nad ydych chi'n gallu gweld, a sut mae hyfforddiant ci tywys Chester yn gallu gwneud siwrnai Chris yn saffach. Bydd y fideo'n dangos pryd i oedi a thrafod cwestiwn fel dosbarth/grŵp. Bydd hyn yn helpu'r grŵp i ddysgu am rai o'r ffyrdd y mae cŵn tywys yn helpu pobl i ddod o hyd i lwybr diogel. Mae'r atebion yn cael eu rhoi yn y fideo, ynghyd ag eglurhad.

**Trafodwch: pa orchmynion ddefnyddiodd Chris gyda Chester?**



Efallai y bydd y bobl ifanc wedi sylwi bod Chris yn rhoi cyfarwyddiadau i Chester, er enghraifft, ymlaen, chwith, dde, at ymyl y palmant, ble mae'r grisiau, ble mae'r drws ac o dan. Ac wrth gwrs, roedd yna sawl 'da iawn' i'w glywed hefyd, gyda Chester yn cael ambell damaid bach blasus hyd yn oed!





**Bydd cŵn tywys yn dysgu 37 o sgiliau gwahanol i helpu eu partner i fynd o le i le yn ddiogel drwy gerdded mewn llinell syth, o ymyl un palmant i un arall, gan osgoi rhwystrau. Byddant hefyd yn cael eu hyfforddi i ddod o hyd i bethau fel drysau a safleoedd bws, i ddatrys problemau ac i fod yn gydweithredol yn eu gofal eu hunain.**

# Gweithgaredd 1



Gwaith pâr



Pren mesur
i bob pâr



## Arwain mewn parau



Yn y gweithgaredd hwn, bydd un person ifanc yn arwain ei bartner ar hyd llwybr. Bydd y ddau ohonynt yn gafael mewn pren mesur neu rywbeth tebyg, gan gymryd arnynt mai hwn yw'r handlen ar harnais y ci tywys. Bydd hyn yn rhoi'r teimlad o symudiad ci tywys i'r unigolyn sy'n cael ei arwain, fel y gall deimlo a dilyn. Bydd angen i'r unigolyn sy'n cael ei arwain adael i'r llall ei dywys, a'i ddilyn drwy'r tensiwn tywys i ble bynnag mae'n mynd.

### Defnyddiwch le mawr diogel fel neuadd, gan wneud yn siŵr bod gennych chi linell gychwyn a llinell derfyn.

Efallai y byddwch yn dymuno rhoi ambell beth o gwmpas y lle i gyfleu rhwystrau go iawn fel mannau croesi ffordd neu geir wedi parcio ar y palmant. Gallech hyd yn oed roi cynnig ar rai o'r gorchmynion yn y fideo, fel 'ymlaen' neu 'ble mae'r gadair'.

Gan ddibynnu ar faint eich grŵp, efallai y byddai'n syniad da gofyn i grwpiau llai wneud y gweithgaredd hwn tra bod pawb arall yn gwylio ac yn adrodd yn ôl ar y diwedd i werthuso'r partneriaethau.

O'r gweithgaredd hwn, gall y bobl ifanc weld sut beth yw cael eu harwain gan gi tywys, gan ymateb i symudiad yr arweinydd wrth fynd o amgylch y rhwystrau, wrth gerdded ar hyd y llwybr ac wrth stopio. Byddant hefyd yn dysgu am ddefnyddio gorchmynion a'r ffordd orau o weithio mewn partneriaeth.





**Bydd hyfforddwyr Guide Dogs yn defnyddio'r ymarfer hwn i roi syniad i bobl sut gallai ci tywys eu helpu. Mae'n eu dysgu sut i ddal yr handlen, pa safle i fod ynddo wrth gerdded gyda'r ci tywys, gorchmynion sylfaenol a sut mae'n teimlo i ddefnyddio tensiwn tywys.**



# Gweithgaredd 2

Gweithgaredd unigol

Papur a phensil bob un




## Cynllun siwrnai ar gyfer ci tywys

Pan fydd partneriaethau ci tywys newydd yn cael hyfforddiant, bydd staff Guide Dogs yn eu helpu i ymarfer y llwybrau y byddant yn eu dilyn yn rheolaidd gyda'i gilydd. Bydd y ci tywys wedyn yn ymgyfarwyddo â rhai o'r prif deithiau, sy'n ei helpu i ddysgu am y rhwystrau y bydd yn dod ar eu traws ac am y pethau y gofynnir iddo ddod o hyd iddynt o bosibl, fel mannau croesi.

### Gofynnwch i'r plant feddwl am siwrnai y gallai partneriaeth ci tywys ei chymryd o gwmpas eich ysgol neu'ch cymuned.

Dylai'r siwrnai fod yn un y mae'r dysgwyr yn ei hadnabod yn dda o'u cof neu y gallent ei hail-greu yn ystod y sesiwn.

### Dylai'r dysgwyr lunio cynllun y siwrnai o'r dechrau i'r diwedd, gan feddwl am unrhyw bwyntiau ar hyd y daith y mae angen bod yn ofalus gyda nhw.

Gan ddefnyddio lluniau neu destun, dylai'r pwyntiau heriol hyn gael eu cofnodi ar y cynllun, ynghyd â sut mae'r dysgwyr yn meddwl y byddai'r bartneriaeth yn delio â nhw. Er enghraifft, i fynd i mewn i'r adeilad, gallai'r person ifanc dynnu llun o berchennog y ci tywys yn gofyn i'r ci 'ble mae'r drws'.

### Gellid marcio'r canlynol ar y cynllun:

- **Pwyntiau allweddol y mae angen delio â nhw**

Ar y cynllun, marciwch bethau fel ffyrdd neu risiau (faint, i fyny/lawr, unrhyw gorneli?), drysau (pa ffordd maen nhw'n agor?), rhwystrau (polion, biniau, unrhyw beth sy'n hongian yn isel)..

- **Pwyntiau lle gallai'r ci tywys dywys y perchennog**

Pryd fyddai'r ci tywys yn helpu a pha orchmynion fyddai angen eu defnyddio?

- **Pwyntiau lle mae perchennog y ci tywys yn gwneud y penderfyniad**

Pryd fyddai angen i berchennog y ci tywys ddefnyddio ei glyw neu ei synhwyrau eraill? Er enghraifft, wrth fan croesi ffordd, byddai angen gwrando am sŵn traffig.

- **TBeth mae'r person ifanc yn ei feddwl yw'r her fwyaf i'r bartneriaeth ci tywys ar y siwrnai**

Ar gyfer dysgwyr hŷn, gellid defnyddio hyn fel sail ar gyfer ysgrifennu disgrifiadol.

# I orffen

Cwestiwn
a thrafodaeth
ar gyfer y grŵp



## All y dysgwyr enwi tri pheth y mae ci tywys yn cael ei hyfforddi i'w wneud i helpu rhywun sydd wedi colli ei olwg?

Gallai'r bobl ifanc sôn am dywys pobl o gwmpas pethau, stopio wrth ymyl palmentydd a dod o hyd i wrthrychau penodol. Cwestiwn diddorol arall y gellid ei ofyn yw 'beth nad yw ci tywys yn ei wneud?' er mwyn gweld a ydynt yn deall mai partneriaeth ydy hi a bod perchennog y ci yn chwarae rhan gyfartal.

**Trafodwch: ydy'ch ysgol neu'ch cymuned chi yn lle hwylus i rywun sydd wedi colli ei olwg?**



Sut gallai gwahanol grwpiau (y bobl ifanc eu hunain, oedolion, arweinwyr y gymuned) wella hyn? Er enghraifft, pobl ifanc ddim yn gadael eu beiciau bob sut ar y palmant os byddant yn mynd i mewn i adeilad, oedolion ddim yn parcio ar y palmant, ac arweinwyr y gymuned yn gwneud yn siŵr bod mannau croesi traffig.




Beth am ddefnyddio'r drafodaeth olaf hon fel man cychwyn ar gyfer ysgrifennu llythyr neu lunio poster llawn perswâd i argyhoeddi eraill i helpu i wella hygyrchedd yn yr ysgol neu'r gymuned?

The Guide Dogs for the Blind Association is a company limited by guarantee and a registered charity in England and Wales (209617), Scotland (SC038979) and Isle of Man (1334). B312f 01/25